# Lleisiau Cymru ar....
# Ddatblygu cydnerthedd

## Gwneud pobl a chymunedau'n fwy cydnerth


Mae datblygu cydnerthedd ymysg unigolion a chymunedau'n rhan allweddol o wasanaeth Cyngor ar Bopeth – rydym yn helpu pobl i ganfod ffordd ymlaen a theimlo'n hyderus am wneud penderfyniadau da. Ar Ôl derbyn cyngor, roedd **2 o bob 3** unigolyn yn teimlo'n hyderus ynghylch ymdopi â phroblem debyg yn y dyfodol, ac roedd **3 o bob 4** yn gwybod mwy am eu hawliau. Rydym yn ymateb i anghenion pobl ac yn cynyddu eu gallu i ddatrys eu problemau eu hunain yn y dyfodol.

Y llynedd, trwy ein prosiectau a ariennir gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Rheng Flaen, Canolbwyntio ar y Gymuned a Cyngor Da, Bywyd Da, fe wnaethom lwyddo i sicrhau'r canlyniadau canlynol ar gyfer cleientiaid:

**90% o achosion o ddigartrefedd wedi'i atal**

**Dyledion gwerth £44 filiwn wedi'u dileu**

**Dros £11 miliwn o gynnydd mewn incwm**



## Mae derbyn cyngor ar yr adeg iawn yn allweddol i ddatblygu unigolion a chymunedau cydnerth

### Astudiaeth achos: Atal Digartrefedd yn Rhondda Cynon Taf (RCT)

Nod y prosiect Cyngor ar Bopeth RCT yw atal digartrefedd trwy gynnig cyngor cynnar ar ddyled a materion budd-daliadau lles i gleientiaid sy'n derbyn cymorth gan dîm Atebion Tai Awdurdod Lleol Rhondda Cynon Taf a chynghorwyr Cefnogi Pobl.

Amcan y prosiect yw sefydlogi a gwella sefyllfa ariannol cleientiaid agored i niwed i'w helpu i aros yn eu cartrefi, neu helpu i sicrhau bod llety newydd er mwyn atal digartrefedd.

### Stori Leah

Fe gafodd Leah ei hatgyfeirio i'r prosiect gan ei gweithiwr cymorth.

Roedd ganddi nifer o broblemau iechyd a oedd yn cael eu gwaethygu oherwydd incwm isel. Roedd hyn yn cynnwys diffyg yn ei rhent gan ei bod yn anodd iddi dalu'r rhent, ac roedd ganddi ôl-ddyledion rhent o eiddo blaenorol hefyd. Meddai Leah: "Pan wnes i gyfarfod â Lisa (cynghorydd o Gyngor ar Bopeth RCT) am y tro cyntaf roeddwn mewn sefyllfa anodd iawn. Roedd fy nyledion yn cynyddu, doedd gen i ddim cartref sefydlog a doedd dim ffordd allan".

Er bod Leah yn derbyn Taliad Annibyniaeth Personol (PIP), diolch i hymyrraeth Cyngor ar Bopeth RCT, mae hi'n derbyn y gyfradd uwch erbyn hyn; rydym wedi gwneud cais llwyddiannus am Daliad Disgresiwn at Gostau Tai ar gyfer y diffyg yn ei rhent, ac mae nifer o'i dyledion heb flaenoriaeth wedi'u dileu. Mae'r canlyniadau ariannol hyn wedi'i helpu i reoli ei sefyllfa'n well ac aros yn ei chartref. Mae hi wedi llwyddo i dalu rhai o'i hôl-ddyledion hyd yn oed.
Meddai Leah: "Diolch i'r cymorth a ges rwyf wedi llwyddo i gadw fy uniondeb a'm hurddas yn fy nghartref fy hun. Rwy'n gallu talu'r rhent, cadw to uwch fy mhen a bwyta. Rwy'n gallu cysgu yn y nos heb boeni am bobl yn cnocio'r drws."

## Astudiaeth achos: hyrwyddo llesiant, cynyddu cydnerthedd a lleihau risg yng  Ngheredigion

Mae Tîm Adnoddau Cymunedol y Trydydd Sector Ceredigion yn bartneriaeth rhwng tri sefydliad gwirfoddol, sef y Groes Goch Brydeinig , Cyngor ar Bopeth Ceredigion, ac Age Cymru Ceredigion. Mae'n cael ei ariannu gan Gronfa Gofal Canolraddol Llywodraeth Cymru i gyflwyno set benodol o ymyriadau sy'n hyrwyddo llesiant, yn cynyddu cydnerthedd ac yn lleihau risg, gan osgoi'r canlynol:

- derbyniadau diangen i'r ysbyty neu ofal preswyl
- oedi pan fo trefniant wedi'i wneud i unigolyn adael gofal.

Mae Cyngor ar Bopeth ac Age Cymru yn darparu ymyriadau mwy hirdymor trwy ddarparu gwybodaeth, cyngor, cymorth ac eiriolaeth.

### Mae'r ymyriadau'n ymwneud  â'r 4 maes canlynol;

**Tai**

**Cynyddu incwm**

**Gwasanaethau cymorth**

**Cartrefi cynnes**

Mae hyn yn sicrhau bod unigolion yn cael eu grymuso â gwybodaeth am eu hawliau a mynediad atynt. Mae hyn yn eu galluogi iddynt datblygu cydnerthedd.

cyngor ar bopeth citizens advice

## Ein hymgyrchoedd

Mae  helpu i greu unigolion a chymunedau mwy cydnerth wedi bod yn ganolog i lawer o'n polisïau.

Dyma rai o'n hargymhellion polisi allweddol:

- Rydym wedi gofyn i Lywodraeth Cymru  - a chyllidwyr eraill - barhau i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cynghori ledled Cymru. Mae cyngor ataliol yn lleihau dyled, yn cadw pobl mewn gwaith ac yn helpu pobl i fanteisio ar eu hawliau lles hefyd, mae gwasanaethau cyngor yn lleihau'r galw ar wasanaethau statudol a chyhoeddus.
- Gall ymyriadau prydlon helpu i wella iechyd, llesiant A chydnerthedd. Ar gyfer pobl Â chyflyrau iechyd meddwl, rydym wedi gofyn am sicrhau bod cyngor ar gael mewn leoliadau iechyd er mwyn sicrhau bod pobl yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt lle maent ei angen fwyaf.
- Un o'r nodau llesiant sydd wedi'i gynnwys yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw  'Cymru gydnerth'.  Mae iechyd, llesiant a chydnerthedd pobl Cymru yn dibynnu ar dai teg a sefydlog. Rydym yn parhau i alw am fynediad i hyn ar gyfer pawb yng Nghymru.

### Datblygu cydnerthedd trwy hyfforddiant a chyflogaeth

Yn ogystal â datblygu cydnerthedd trwy roi cymorth i bawb, pwy bynnag ydyn nhw, waeth beth yw eu problem, rydym yn gwneud cymunedau'n fwy cydnerth trwy ddarparu cyflogaeth, hyfforddiant a datblygiad i wirfoddolwyr, ymddiriedolwyr a staff cyflogedig.

Y llynedd, roedd 11% o'r gwirfoddolwyr a adawodd Cyngor ar Bopeth yng Nghymru a Lloegr wedi gadael i gael addysg neu hyfforddiant.  Roedd 31% wedi gadael i gael swydd am dâl,  tra bod 3% wedi gadael eu rôl wirfoddol ond wedi aros yn y swyddfa leol. Mae hyn yn awgrymu  eu bod wedi gallu datblygu'n fewnol a symud ymlaen i gyflogaeth am dâl.

